## Plaid Gomiwnyddol Cymru

# DIM OND SOSIALAETH ALL RYDDHAU CYMRU

# RHAGAIR

Dyma ein pamffled cyntaf i'w gyhoeddi, yn edrych ar y cysyniad o annibynniaeth ac yn cwestiynnu pwy fydd ar eu hennill o hynny? Mae gennym ateb pendant, fel yr esbonir isod – dosbarth gweithiol Cymru fydd ar eu hennill, **dim ond** dosbarth gweithiol Cymru fydd ar eu hennill!

Ni yw Plaid Gomiwnyddol Cymru, nid yn unig yr ydym yn cefnogi annibynniaeth i'w gasgliad mwyaf rhesymol, yr ydym hefyd yn gwbwl wreiddiol ac annibynnol. Lluniwyd ein dadl gan hanes y dosbarth gweithiol yng Nghymru, ein crebwyll o economyddiaeth, o gyfalafiaeth, o wersi'r brwydrau dros ryddid cenedlaethol led-led y byd.

Darllenwch, cadwch feddwl agored, ac ystyriwch ein dadleuon. Gyda'n gilydd, mae gyda ni fyd i'w ennill.

## *DROS WERINIAETH SOSIALAIDD I GYMRU*

# CYFLWYNIAD

Ein dadl graidd erioed yw y bydd yn rhaid i Gymru rydd fod yn Weriniaeth Sosialaidd Gymreig – gan taw sosialaeth yw'r unig gyfrwng i wireddu gwir ryddid.

Yn gyntaf, beth yw'r Weriniaeth Sosialaidd Gymreig?

Golyga **Sosialaeth** y bydd Cymru, ei bywyd economaidd a diwylliannol, yn cael ei gosod yn llwyr yn nwylo'r dosbarth gweithiol Cymreig.

Fel **Gweriniaeth**, ni fydd ganddom frenin na brenhines, dim teyrn etifeddol, ni fyddwn yn troi'n ộl i'r canrifoedd a fu i ail-greu tywysogaeth Gymreig, nag yn derbyn statws fel aelod o'r 'gymanwlad' Brydeinig.

Dyma ymwadiad syml – comiwnyddion ydym! Yr ydym yn amlwg am hybu sosialaeth, ond mae gennym hefyd ddadl glir i'w chyflwyno.

<u>Ni all Cymru fod yn annibynnol **heb** sosialaeth.</u>

Mae hwn yn osodiad beiddgar, felly gadewch i ni esbonio ein safbwynt drwy nifer o ddadleuon; does ond un dosbarth sydd a diddordeb mewn ryddhau Cymru, y dosbarth gweithiol, a bydd y frwydr dros annibynniaeth Gymreig yn anochel yn dod i wrthdaro gyda grymoedd cyfalafiaeth.

# CYMRU, DOSBARTH A CHYFALAF

Ein dadl gyntaf yw mai'r dosbarth gweithiol yn unig fydd ar eu hennill o annibynniaeth, felly gadewch i ni esbonio beth (yn fras) yw cyfundrefn ddosbarth Cymru.

**Mae'r gymdeithas gyfalafol gyfoes yn ei hanfod wedi ei dosbarthu i'r fwrgeisiaeth, y fận-fwrgeisiaeth a'r proletariat.**

Y fwrgeisiaeth yw'r cyfalafwyr mawr, a phan feddyliwn am y rhain, meddyliwn am ddur Tata, rhain yw perchnogion a chyfranddalwyr cwmniau mawrion gyda gweithluoedd mawr.

Wedyn y mae'r fận-fwrgeisiaeth, rhain yw'r perchnogion busnesau bach, y rhai sy'n debygol o fyw a gweithio yn yr un lleoliad, gyda nifer fechan o staff, sydd yn rhan o wead y gymuned leol.

Er cyfleustra, cyfeirir yn gyffredinol at y ddau ddosbarth yma fel y cyfalafwyr ond pan fo angen byddwn yn gwahaniaethu rhyngddynt gyda'u teitlau priodol.
Yn olaf, y dosbarth mwyaf niferus yw'r proletariat, neu fel y'i gelwir yn gyffredin, y dosbarth gweithiol. Diffinir y dosbarth gweithiol drwy eu perthynas gyda chyfalaf – yn yr ystyr nad ydynt yn berchen arno ond yn hytrach yn ei greu. Eu llafur sydd yn creu cyfalaf, a gyfnewidir gan y dosbarthiadau perchnogol i fod yn gyllid (h.y. elw) a ddefnyddir yn ei dro i greu cyfalaf.

Y mae yna hierarchiaeth bendant o fewn y dosbarth gweithiol, gall elfen o'r dosbarth gweithiol gael ei thalu gyflog bras i weinyddu a threfnu twf cyfalaf ar ran y cyfalafwyr, gan ennill mận freintiau ychwanegol, ond eto nid ydynt yn berchen ar unrhyw fodd o greu cyfalaf.

# BETH YW CYFALAF?

I grynodebu Marx, yn y gymdeithas gyfalafol gyfoes, defnyddir cyllid i brynu nwyddau a llafur, a drawsnewidir wedyn trwy lafur i fod yn nwyddau newydd, a werthir am elw. Mae gweithwyr yn creu nwyddau / gwasanaethau ar gyfer cyfalafwyr, a werthir am bris uwch na llafur y gweithwyr a'r adnoddau ddefnyddiwyd. Mae'r pris uwch yn cael ei ddychwelyd i'r cyfalafwr i'w ddefnyddio fel y myn.

Wrth gwrs rhaid i'r cyfalafwyr dalu'r gweithwyr am eu llafur, yn ddigonol iddynt allu byw a pharhau i weithio, ond dim mwy na hynny. Dyma ein cyflog.

Mae'r golud a gynhyrchir gan y gweithwyr trwy greu nwyddau / gwasanaethau yn eiddo gan fwyaf i'r cyfalafwyr. Tu hwnt i dalu am rai deunyddiau a llafur y gweithwyr, gall y cyfalafwr wedyn hidlo'r elw ychwanegol at ei ddiben ei hun (prynu ail, drydydd, pedwerydd neu ddegfed (!) cartref) neu er mwyn ehangu cyfalaf y busnes (prynu peiriannau mwy effeithiol er mwyn gostwng costau llafur ac felly gynyddu elw). Mae'r broses hon yn sicrhau fod y cyfalafwyr ar eu hennill ac na fydd y gweithwyr fyth yn mwynhau'r cyfoeth y maent yn ei greu.

Gelwir y cylchdro hwn yn C-N-C sy'n egluro fod **y cyfalafwyr yn defnyddio cyllid (C) er mwyn creu Nwyddau (N) sydd yn ychwanegu at y cyllid (C).** Ni all y cyfalafwyr fod ar eu colled, gan fod y broses hon yn un fyd-eang. Nid ydym yn son am fusnesau unigol; mae rhai yn methu, ond cant eu traflyncu gan fusnesau mwy a'u gwneud yn fwy "effeithiol" fel y gall y cylchdro barhau.

Nid yw'r fformiwla hon yn digwydd trwy hap, ond trwy lafur y dosbarth gweithiol, sy'n rhoi eu hegni, eu hamser ac yn gyffredinol, eu bywydau, er mwyn creu cyfalaf nad oes ganddynt unrhyw reolaeth drosto.

I amlygu'r ddadl hon, cymerwch er enghraifft y gweithfeydd dur. Mae'r cyfalafwr yn defnyddio cyllid (C) er mwyn prynu adnoddau (haearn crai, glộ / trydan, peiriannau) sy'n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu dur, mae llafur y gweithiwr yn troi'r adnoddau hyn yn gynnyrch cwbwl newydd – dur. Mae gwerth uwch i'r dur nag i'r adnoddau cyfun eraill (gan gynnwys llafur). Caiff y dur wedyn ei werthu am elw (C), mae'r elw hwn yn cael ei ddefnyddio i ehangu'r broses, i dalu staff ond gyda'r cyfan sydd dros ben yn mynd i berchnogion a chyfranddalwyr y gweithfeydd dur. **Dylai'r elw dros ben fynd i'r gweithwyr wnaeth ei greu!** Yn hytrach caiff ei gymryd gan y perchnogion a rhaid i'r gweithwyr fodloni yn unig ar eu cyflog.

Er enghraifft arall, cymerwch dy tafarn. Mae'r trwyddedwr (neu yn fwy cyffredin y breintddaliwr) yn defnyddio cyllid (C) i brynu nwyddau (N) (cegiau, casgenni, tapiau /pwmpiau). Mae llafur yn tynnu'r brậg o'r gasgen a'i gyfnewid i gynnyrch newydd – peint o gwrw. Caiff y peint wedyn ei werthu i gwsmer am elw (C) a ddefnyddir i brynu adnoddau newydd a llafur. Sy'n dod yn ol eto at N, sy'n creu mwy o C, ac yn y blaen, fel y gall y busnes greu mwy fyth o elw ond gan adael y gweithiwr ar yr un cyflog er cymaint cyfoethocach yw'r cyfalafwr.

I grynhoi'r uchod, mae Cymru yn bodoli o fewn cyd-destun y gymdeithas gyfalafol gyfoes, mae Cymru wedi ei phoblogi gan ddosbarth cyfalafol (perchnogol) ac gan ddosbarth gweithiol.

Ein cred ni yw y dylid dychwelyd i'r gweithwyr yr elw dros ben o'r gyfundrefn hon. Dylai'r gwerth a ychwanegwn tuag at adnoddau fod yn eiddo i ni, nid i'w grynhoi yng nghoffrau'r cyfalafwyr.

# BETH YW ANNIBYNNIAETH?

Nesaf, gadwech i ni ddiffynio yn gryno beth yw annibynniaeth. Fe gyfeiriwn at weithiau James Connolly, a geisiodd esbonio yn drylwyr taw sosialaeth yn unig allai roi'r Iwerddon ar ben ei thaith i'w rhyddid, ac a ddienyddiwyd gan y Prydeinwyr am wneud hynny. Mae'r dyfyniad canlynol o'i ysgrif 'Beth Yw Cenedl Rydd' a osodwyd yng nghyd-destun Deddf Ymreolaeth 1914, cynnig ar ddatganoli grym oddi wrth y Deyrnas Unedig.

*"Beth yw cenedl rydd? Cenedl rydd yw un sy'n meddu ar reolaeth lwyr dros ei hadnoddau a'u grymoedd mewnol, heb unrhyw gyfyngiad ar ei hymwneud gyda chenhedloedd tebyg eu sefyllfa ar wahan i gyfyngiadau naturiol. {} Rhaid i genedl rydd lwyr reoli ei phorthladdoedd, i'w hagor a'u cau fel y myn, i gau allan unrhyw adnodd, neu ei dderbyn i mewn, yn union er budd ei phobol ei hunan, yn ộl eu dymuniad, ac yn ddiystyriol hollol o ddymuniadau unrhyw genedl arall. Heb y grymoedd hyn ni ddeil unrhyw genedl anghenion sylfaenol ei rhyddid."*

Felly i aralleirio yr uchod, i fod yn annibynnol bydd angen i ni; reoli ein hadnoddau a'n hegni ein hunan, gwaredu unrhyw gyfyngiad gyda pwy y gallwn fasnachu a chydweithredu, cael rheolaeth dros ein porthladdoedd a'n ffiniau i'w hagor a'u cau fel y mynnwn, hyn oll yn rhydd rhag ymyrraeth unrhyw genedl arall.

Mae'r disgrifiad yma mor wir heddiw ag ydoedd bryd hynny. Fodd bynnag, mae rhai ymgyrchwyr yn dadlau fod angen i bob dosbarth ymuno yn y frwydr dros annibynniaeth, ni allent fod yn bellach o'u lle.

# PWY SYDD AR EU HENNILL O ANNIBYNNIAETH?

Mae nifer yn galw am 'fudiad cenedlaethol' fydd yn bodoli tu hwnt i ffiniau dosbarth, y syniad o "annibynniaeth gyntaf, gofyn cwestiynnau wedyn". Cyfeiriwn eto at James Connolly i amlygu'r ffaith y bydd unrhyw 'fudiad cenedlaethol' sydd heb ei seilio ar ystyriaethau dosbarth yn esgor ar ymgyrch annibynniaeth egwan. Hynny yw, mudiad ceidwadol, bwrgeisaidd, adweithiol sydd yn anelu tuag at annibynnaieth mewn enw yn unig heb gynnig newid byd i weithwyr Cymru. Ysgrifennodd Connolly: "Pan anwybyddir ystyriaeth o fuddiannau dosbarth yn yr ymryson cyhoeddus, yna cyflwynir y fuddugoliaeth i'r dosbarth perchnogol, ceidwadol, **sydd a'u hunig obaith o barhad yn ddibynnol ar y fath anwybyddiaeth.**"

# PAM FYDDAI'R FWRGEISIAETH YN GWRTHWYNEBU GWIR ANNIBYNNIAETH?

Gallwn gychwyn gyda llifiant masnach a llafur, byddai annibynniaeth Gymreig *o bosib* yn cyfyngu ar hyn yn dilyn ein gallu i gau ein ffiniau a'n porthladdoedd. Byddai Cymru annibynnol angen cynyddu ei hunan-gynhaliaeth a datblygu marchnadoedd mewnol ar gyfer ein cynnyrch. Ar hyn o bryd rydym yn allforio 80% o'n cig oen, sydd yn y bộn yn gnwd aur. Cawn ein talu i gynhyrchu adnodd o werth, er hyn ni chawn gyflog digonol i'w fwynhau ein hunain, felly caiff ei allforio. Os y dargyfeiriwn ein hymdrechion oddi wrth gig oen a thuag at amaethu mwy priodol i fwydo Cymru, gallwn rwystro cyfalafwyr allanol a chyfeirio cyfalafwyr "Cymreig" oddi wrth allforion proffidiol tuag at y marchnadoedd mewnol llai proffidiol. Oni chaiff y cyfalafwr byd-eang rwydd-hynt ddilyffethair i'r farchnad Gymreig, ni fydd ganddo gymhelliad i dderbyn annibynniaeth i Gymru.

Hyd yn oed wrth roi'r ystyriaeth fwyaf sylfaenol i annibynniaeth – "annibynniaeth gyntaf, gofyn cwestiynnau wedyn" – bydd angen i ni fod yn fwy hunan-gynhaliol, ni oddefir hyn gan y corfforaethau rhyngwladol.

Nesaf, gadwech i ni drafod adnoddau. Yng Nghymru rydym yn cynhyrchu dur ac mae ymchwil diweddar yn y gogledd wedi canfod metalau prin sy'n angenrheidiol i greu batrioedd. Yr her i'r cyfalafwr yw ei bod yn rhatach prynu'r adnoddau hyn o wledydd eraill, gan ecsploitio ein cymrodyr dosbarth gweithiol o'r De Byd-eang. Nid oes disgwyl i'r cyfalafwyr fuddsoddi mewn Cymru rydd os yw'n rhatach iddynt ganfod adnoddau crai neu gynhyrchu nwyddau gorffenedig dramor.

Felly mewn theori mae'r cyfalafwr yn derbyn annibynniaeth Gymreig yn unig os na chaiff ei rwystro rhag masnachu neu hawlio adnoddau, neu os na chaiff ei orfodi i fuddsoddi yng Nghymru.

Rheolir y fwrgeisiaeth yn unig gan eu pennau, beth all gynnig yr elw mwyaf? Eu hunig ystyriaeth yw llif cyllid a chyrraedd y marchnadoedd fydd yn esgor ar ehangiad, pa fath o annibynniaeth Gymreig na fydd yn eu cyfyngu?
Brwydr y werin yw annibynniaeth yn y bộn, brwydr am well amodau i bobol Cymru. Bygythiad sylfaenol yw hyn i gyfalafwyr.

# A FYDD Y FĀN-FWRGEISIAETH YN CEFNOGI ANNIBYNNIAETH?

Nesaf, ystyriwn y fạn-fwrgeisiaeth, y busnesau bach, sy'n wynebu'r un heriau ag uchod ond hefyd gwrthdrawiad posib gyda'r fwrgeisiaeth, gan taw'r fwrgeisiaeth sydd a'r grym economaidd i ddifrodi busnesau bychain er mwyn eu hymgorfforu yn eu monopoliau neu i ehangu eu monopoli – nid oes yr un gadwyn byrger bach yn croesawu dyfodiad McDonlads!

Ystyriaeth arall yw mai lleiafrif hyd yn oed ymysg y 'dosbarth perchnogol' yw'r fwrgeisiaeth, eto mae'r elw o'u heiddo yn llawer mwy nag eiddo'r fạn-fwrgeisiaeth. Bydd y fwrgeisiaeth yn defnyddio'r elw hyn i warchod eu proffidiau presennol ac i'r dyfodol. Ni fydd y fwrgeisiaeth yn barod i beryglu eu cyfoeth ar draul annibynniaeth lwyddiannus. Byddant yn hybu casineb a drwgdeimlad yn ein herbyn, gan ddefnyddio eu dylanwad dros y cyfryngau i ymosod ar y mudiad, gan ddefnyddio eu grym gwleidyddol i fygwth drwg ar y werin ac yn defnyddio eu cyfoeth i lwgrwobrwyo'r fạn-fwrgeisiaeth i ymwrthod yn chwyrn ag annibynniaeth.

Efallai gall y fạn-fwrgeisiaeth barhau i gefnogi annibynniaeth wrth i'r ymgyrch ddatblygu i'w graddau mwyaf chwyldroadol mewn gwrthdrawiad gyda'r fwrgeisiaeth yn y frwydr dros Gymru, er hyn bydd cymeriad annibynniaeth Gymreig yn parhau yn ddosbarth gweithiol gan y bydd y frwydr dros ryddid yn ei hanfod yn un wrth-gyfalafol.

Fe wyddom hyn gan fod y patrwm wedi ei osod ymhob ymgyrch flaenorol dros ryddid cenedlaethol, gweler Iwerddon, Ciwba, Fietnam. Lle bynnag fo gwerin yn ymdrechu dros well, bydd y fwrgeisiaeth yn adweithio. Ni fydd gan y fạn-fwrgeisiaeth fawr o ddewis ond cefnogi'r fwrgeisiaeth, gan wybod fod eu buddiannau dosbarth yn gyffredin.

Bydd yr ymdaith tuag at annibynniaeth Gymreig yn anochel yn arwain at wrthdrawiad yn erbyn cyfalaf, ond digon am hynny am y tro.

# A FYDD Y DOSBARTH GWEITHIOL YN ELWA O ANNIBYNNIAETH?

Y dosbarth olaf i ni ystyried yng nghyd-destun annibynniaeth yw'r dosbarth gweithiol, a'i fuddiannau. Yn gyntaf oll, mae carfan sylweddol o'r dosbarth gweithiol sydd eisioes yn cefnogi annibynniaeth Gymreig, gan ddymuno hybu ac amddiffyn yr iaith Gymraeg, ond hefyd gan ddyheu am Gymru fwy addas i'w anghenion. Beth yw eu anghenion? Cyflogau uwch, tai gwell, safonau gwaith uwch, gwell addysg, gwell gofal iechyd. Mae hyn yn ystrydeb ond dyma'r elfennau sy'n cynnig bywyd gwell yn hanesyddol, y prif amcan i ni fel dosbarth gweithiol.

Mae Cymru yn bodoli mewn cyd-destun cyfalafol **ar hyn o bryd**. Cymdeithas gyfalafol sydd wedi achosi cwymp ym mherchnogaeth tai, diriwiad mewn amodau gwaith a chyflogau, iselhau safonau addysg ac ar ein gorau y cyfan allwn wneud yw ail-adrodd yr hyn mae'r gymdeithas gyfalafol yn dymuno i ni ddysgu, i fod yn weithwyr bach da. Mae ein system iechyd, a grewyd ar ddelfryd sosialaidd, wedi ei dieithrio trwy breifateiddio a'i llygru trwy gyfalafiaeth.

Digwydd hyn oll am reswm, ac mae'r pethau hyn i gyd yn esgor ar elw cynyddol i'r cyfalafwyr, gan gynnwys y cyfalafwyr mận-fwrgeisaidd sef y mwyafrif o landlordiaid. Heb newid sylfaenol i'n hagweddau gallai'r problemau hyn barhau mewn Cymru annibynnol.

Er mwyn diwallu anghenion y dosbarth gweithiol trwy annibynniaeth Gymreig, bydd rhaid dwyn pris uchel ar y cyfalafwyr, a fydd yn elyniaethus i'n hachos. Mae rhyddid cenedlaethol gyda'r goruchaf o amcanion, yn galw am drawsnewidiad llwyr o gymdeithas a newid chwyldroadol yn ein perthynas gyda gweddill y byd. Ni ellir gwireddu'r amcanion hyn heb gefnogaeth dorfol, heb gefnogaeth y dosbarth gweithiol.

# ANNIBYNNIAETH GYMREIG VS CYFALAFIAETH

Mae'r cyfan o'r uchod yn cadarnhau'r ddadl y bydd annibynniaeth Gymreig yn ein gosod ben-ben yn erbyn grymoedd cyfalaf, bydd ein gelynion yn ein labelu fel sosialwyr, comiwnyddion, cochion anwadal, yn ddi-hid o'n hamcanion. Felly awgrymwn yr hyn sy'n amlwg – rhaid i'r ymgyrch annibynniaeth Gymreig fod yn ymgyrch dros Weriniaeth Sosialaidd Gymreig. Os nad felly, bydd yn ymgyrch heb gefnogaeth grai, heb amcanion gwirioneddol ac heb lwybr i lwyddiant.

Os ydych am gefnogi'r iaith Gymraeg, wel iaith cyfalafiaeth yw Saesneg.

Ymladdwch dros Weriniaeth Sosialaidd i Gymru.
Os ydych am frwydro dros hawliau pobol, wel y cyfalafwyr sy'n tanseilio ac yn llygru ein hawliau. Ymladdwch dros Weriniaeth Sosialaidd i Gymru.

Os ydych am amddiffyn ein hamgylchedd, wel y cyfalafwyr sy'n gwenwyno ein hafonydd ac yn dinistrio ein tir. Ymladdwch dros Weriniaeth Sosialaidd i Gymru.

*"Fel sydd raid i bob Cenedlaetholwr garu ei bobol, gan taw'r bobol yw'r genedl... nid rhyw ymlyniad at syniad gwag oedd cenedlaetholdeb, yr oedd yn ymlyniad at y dynion a'r menywod sy'n creu'r genedl Wyddelig, ffydd yn eu hawliau, ac ymroddiad i'w gosod fel perchnogion Iwerddon a meistri ei holl ffawd."* P.H. Pearse

# *DROS WERINIAETH SOSIALAIDD I GYMRU*